# DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Atodlen 1 – Ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru***

***Paragraffau 8 a 9 – Telerau penodi eraill***

63. Caiff y Cynulliad benderfynu ar delerau ac amodau eraill sy'n gymwys i aelodau anweithredol SAC, gan gynnwys y Cadeirydd. Caiff y cytundebau neu'r trefniadau hyn gynnwys cyfyngiadau ar swyddi eraill y caniateir i aelod anweithredol eu dal am gyfnod o hyd at ddwy flynedd ar ôl iddynt orffen dal y swydd (paragraff 8).

64. Cyn gwneud penderfyniad ar y telerau a’r amodau hynny rhaid ymgynghori â pherson priodol sydd â throsolwg ar benodiadau cyhoeddus y mae'r Cynulliad yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori ag ef.